**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mawrth 2024

Annwyl Peredur

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod rhithwir eithriadol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 14 Mawrth, hoffwn rannu â chi ychydig o'r hyn a drafodwyd. Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan hefyd: [Datganiadau y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - GOV.UK (www.gov.uk)]

Yn bresennol gyda mi yn y cyfarfod roedd y Gwir Anrh Laura Trott MBE AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a Dr Caoimhe Archibald ACD, Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon.

Yn ystod ein trafodaethau ar Gyllideb y DU, amlygais y goblygiadau i Gymru, gan dynnu sylw yn arbennig at fy mhryderon ynghylch y diffyg cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Pwysleisiais yr angen am sicrwydd cynnar o unrhyw gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn 2024-25, yn arbennig mewn perthynas â chyflogau'r sector cyhoeddus. Gwnaethom hefyd drafod pwysigrwydd sicrhau eglurder ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cynnal adolygiad o wariant er mwyn helpu i flaengynllunio ein cyllideb.

Yn yr un modd â chyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, ailadroddais yr achos dros hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol, gan dynnu sylw at ein profiad o broses ddiweddaraf Amcangyfrifon Atodol y DU. Gwnes i sicrhau ymrwymiad i swyddogion ddatblygu cynigion ar gyfer gwella prosesau cyllido yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ystyried prosesau cyfnewid cyfalaf yn adnoddau, i'w trafod yn ystod cyfarfod pellach o'r Pwyllgor.

Yn olaf, nodais y byddai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro i'w weinyddu'n uniongyrchol. Ailadroddais fod ein safbwynt yn parhau, hynny yw, yn unol â'n setliad datganoli, dylid dychwelyd cyllid ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i Lywodraeth Cymru i'w weithredu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government